**Bydd y sinema newydd yn agor yn ystod tymor yr Haf 2018.**

**The extension will include:**
- 2 dedicated cinema screens
- The latest technology
- A varied cinema programme including the latest films (on release date)
- Comfortable seating with plenty of leg room
- Affordable ticket prices

**Because of the construction work, we have a temporary new entrance and box office counter (temporarily). The work WILL NOT affect the programme of events or any other public spaces.**

**The new cinema will open during Summer 2018.**

Cofiwch ddilyn y datblygiad
Follow updates on the project:

twitter.com/_galeri_
facebook.com/galericaernarfon
instagram.galericaernarfon.com

galericaernarfon.com


galeri

## Prydau arbennig cyn-sioe...

Mae posib archebu bwrdd yn y café rhwng 17:00–19:00 i fanteisio ar y fwydlen arbennig, sef: **2 gwrs: £18 neu 3 chwrs :£25**

Bydd y fwydlen i'w gweld ar ein gwefan.

**Awgrymwn yn gryf eich bod yn archebu bwrdd ymlaen llaw i sicrhau eich lle. I archebu: 01286 685 200 / cegin@galericaernarfon.com**

## Pre-show menu...

We are now offering a special pre-show menu served between 17:00–19:00. Take advantage of: **2 courses: £18 or 3 courses: £25**

The menu will be published on our website in advance.

**To book your table, please contact:**
**01286 685 200/cegin@galericaernarfon.com**

**Bydd y fwydlen ar gael ar gyfer y dyddiadau/digwyddiadau isod/**
**The pre-show menu will be available on the following dates/events:**

| | |
|---|---|
| 08.09.17 | **Cyngerdd Gala: Llŷr Williams, Rhys Meirion, Shân Cothi** |
| 13.09.17 | **Live at Pompeii** |
| 14–15.09.17 | **Dim Byd Ynni** |
| 16.09.17 | **Darlith Glyndŵr: Peredur Lynch** |
| 22.09.17 | **Luke Daniels** |
| 23.09.17 | **Jeremy Hardy: Live 2017** |
| 29.09.17 | **Y Gadair Wag** |



**Dawns/ Dance**
**Lleoliad/Location: S1**
**Tocynnau/Tickets: £60**
**am y tymor/for the term**
***sesiynau ychwanegol/additional sessions: £10 yr un/each**

# Cain

**Dyddiad/Date**
Tymor Medi – Rhagfyr
September – December dates

Criw perfformio dawns Galeri ar gyfer unrhyw berson dros 60 oed yw Cain. Mae'r criw yn cyfarfod yn gyson ar gyfer dyfeisio, datblygu ac ymarfer gwaith newydd dan arweiniad y coreograffydd a'r tiwtor Cai Tomos.

Cain is Galeri's dance performance group – open to those over the age of 60. The sessions are held by professional dancer/choreographer/tutor – Cai Tomos.

**Mae sesiynau wedi cael eu cadarnhau ar y dyddiadau isod:**
**Confirmed dates for the term:**
03.09.17 / 29.10.17 / 05.11.17 / 10.12.17
(10:00 –12:30 & 15:00 – 17:00)
(mae'n bosib bydd sesiynau ychwanegol/extra sessions may be organised)

Croeso cynnes i aelodau newydd!
A warm welcome to new members!
gyda diolch i/with thanks to: Dawns i Bawb



**Dawns/ Dance**
**Lleoliad/Location: S1**
**Tocynnau/Tickets: £3**
**y sesiwn/per session**

# Estyneto

**Dyddiad/Date**
Tymor Medi – Rhagfyr
September – December dates

**Amser/Time**
13:00 – 15:00

Ymunwch â'r dawnsiwr, y coreograffydd a'r tiwtor arbennig Cai Tomos mewn sesiynau dawns/symud i gerddoriaeth misol sydd yn arbennig i unrhyw berson dros 60 mlwydd oed. Yr oll sydd angen arnoch yw'r awydd i gadw'n ich ac yn heini.

Join the inspirational dancer and choreographer, Cai Tomos as he leads monthly dance/movement sessions specifically for those over the age of 60. You do not need any previous dancing experience or skills – only the desire to stay fit and healthy.

**Dyddiadau'r tymor/dates for the term:**
03.09.17 / 29.10.17 / 05.11.17 / 10.12.17

gyda diolch i/with thanks to:
Dawns i Bawb

# Cyngerdd Gala
# Rhys Meirion / Llŷr Williams / Shân Cothi

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
08.09.17

**Amser/Time**
19:30

Cyngerdd Gala ar thema cariad/rhamant fawreddog yng nghwmni:
**Llŷr Williams** (Pianydd Preswyl Galeri)
**Rhys Meirion** (Canwr Preswyl Galeri)
a'r gwestai arbennig, y soprano **Shân Cothi**.
Gwledd o gerddoriaeth rhamantus gan brif artistiaid Cymru. Dyma gyngerdd sydd wedi ei ail-drefnu oherwydd salwch ym mis Ionawr.
Bydd y rhaglen yn cynnwys unawdau a deuawdau gan gyfansoddwyr megis: Ivor Novello, Delibes, Caneloube, Poulec, Liszt, Bernstein, Puccini, Lloyd Webber, Joseph Parry, Rachmaninov.

Gala Concert in the company of:
**Llŷr Williams** (Galeri's Official Resident Pianist)
**Rhys Meirion** (Galeri's Official Resident Singer)
and special guest – soprano **Shân Cothi**.
A feast of romantic music in the company of three of Wales' most talented musicians. This is the new date for the postponed concert due to be held in January.
The repetoire includes solos and duets from composers including:
Ivor Novello, Delibes, Caneloube, Poulec, Liszt, Bernstein, Puccini, Lloyd Webber, Joseph Parry, Rachmaninov.

**Cerddoriaeth/Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £25, Gostyngiadau/Concessions: £22
Prima: £22

Cyngerdd Gala

Rhys Meirion
Llŷr Williams
Shân Cothi



**Gweithdy/Workshop**
**Lleoliad/Location: S1**
**Tocynnau/Tickets: £40**

## Cynllun Rhaglennwyr Ifanc: Sinema
## Young Programmers Scheme: Cinema

**Dyddiad/Date**
Medi/September – Hydref/October

Rhwng 11-18 oed? Diddordeb yn y diwydiant ffilm? Ffansi rhoi cynnig ar raglennu a threfnu diwrnod o ddangosiadau ffilm yn Galeri? Am 5 wythnos, rydym yn cynnig gweithdai ymarferol a ac yn gosod tasg – i griw o bobl ifanc i ddewis, trefnu, marchnata a dangos ffilmiau yn theatr Galeri i gynulleidfa fydd yn talu am docynnau. Y cwbwl sydd ei angen gennych yw'r ymryddoad i fynnychu'r sesiynau yn ogystal a'r diwrnod dangosiadau (29.10.17) ac i fod weithgar yn holl agweddau'r gwaith.
I gael gwybod mwy ac i gofrestru:
sbarc@galericaernarfon.com / 01286 685 250

Are you 11-18 years old? Do you have a passion for film? Ever thought of curating your own film day? For 5 weeks, we're offering an opportunity to learn about how you go about selecting, marketing and showing a film successfully to a paying audience.

Capasiti cyfyngedig – awgrymwn eich bod yn archebu eich lle yn gynnar!
Limited capacity – early booking recommended!


sbarc

## Diddordeb ymuno â prosiect Sbarc?
## Interested in joining Sbarc?

**Prosiect celf Galeri yw Sbarc sydd yn cynnig gwersi wythnosol mewn drama ac ysgol roc yn ogystal â gweithdai amrywiol drwy gydol y flwyddyn. Os hoffech ymuno â dros 200 o blant a phobl ifanc o'r ardal sydd yn aelodau yn barod - gadewch i ni wybod!**

**Galeri's arts project sbarc run weekly classes in performance and rock school… If you would like to join over 200 other children and young people and become a member, let us know!**

sbarc · GALERI CAERNARFON · Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales · Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government · Cyngor Gwynedd Council


# David Gilmour: Live at Pompeii

**Dyddiad/Date**
Mercher/ Wednesday
13.09.17

**Amser/Time**
20:00

45 mlynedd ar ôl i David Gilmour o'r band Pink Floyd ffilmio "Live at Pompeii" yn yr Amffitheatr Rufeinig enwog, dychwelodd ar gyfer dwy sioe arbennig fel rhan o daith hyrwyddo'r albwm "Rattle That Lock". Dyma'r cyngherddau roc cyntaf erioed i'w cynnal yn yr amffitheatr. Rydym yn falch o fod yn dangos y darllediad o 'David Gilmour: Live at Pompeii' yma'n Galeri. Dewch am wledd i'r llygaid a'r clustiau ac i fwynhau rhai o brif glasuron Pink Floyd ynghyd a thraciau oddi ar ei dddwy albwm diweddar - Rattle That Lock a On An Island.

45 years after Pink Floyd's David Gilmour filmed 'Live At Pompeii' in the legendary Roman Amphitheatre there, he returned for two spectacular shows, part of his year-long tour in support of his No.1 album 'Rattle That Lock'. The performances were the first-ever rock concerts for an audience in the stone Roman amphitheatre, and, for two nights only, the 2,600 strong crowd stood exactly where gladiators would have fought in the first century AD.



**Darllediad Byw / Live Broadcast**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £10
Gostyngiadau/Concessions:
£9–£8, PRIMA: £7.50

Theatr Bara Caws

# Dim Byd Ynni

(neu Dirgelwch Plas Dolbythwyrdd)

**Dyddiad/Date**
Iau/ Thursday – Gwener/Friday
14.09.17–15.09.17

**Amser/Time**
19:30

Beth yw cyfrinach Syr Felix ap Llywarch?
Faint o ledi yw Angela?
Beth ddaeth â Dylan Tudur nôl i'r Plas?
Faint o actores yw Candi Mêl?
Beth yn union mae Geriach y bwtler yn ei wybod?
Faint o ddihiryn yw Malcom Leech?
Bywyd pwy sydd mewn perygl, a pham?
A, gall yr Arolygydd Carnben ddatrys pob dirgelwch cyn ei bod yn rhy hwyr?

Ffars i'r teulu cyfan.

Awdur: Emlyn Gomer
Cast: Rhian Blythe, Iwan John, Rhodri Evan, John Glyn Owen,
Christine Pritchard, Rhys Parry Jones
Cyfarwyddo: Betsan Llwyd

What is Sir Felix ap Llywarch's secret?
Is Angela truly a lady?
Why has Dylan Tudur returned to the Mansion?
How good an actress is Candi Mêl?
What exactly does Geriach the butler know?
How much of a rogue is Malcom Leech?
Who's life is in danger, and why?
And can Inspector Carnben solve the mystery before it's too late?



**Theatr/Theatre**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £11
Gostyngiadau/Concessions:
£10–£9, Prima: £9, Tocyn teulu /
Family ticket: (x4) £35 (x5) £43




**Sgwrs/ Talk**
**Lleoliad/Location:**TH
**Tocynnau/Tickets:** £8
Gostyngiadau/Concessions: £6
Prima: £6

# Darlith Glyndŵr 2017: Peredur Lynch

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
16.09.17

**Amser/Time**
19:00

Darlith flynyddol Glyndŵr Galeri, Caernarfon.
Eleni, Yr Athro Peredur Lynch fydd yn traddodi:
"Fy nhad… y cenedlaetholwr Cymreig mwyaf ers Owain Glyndŵr. Chwaraeon a Gwladgarwch yng Nghymru."

Our annual Glyndŵr lecture will this year be presented by Professor Peredur Lynch. He will be discussing the role of sports and patriotism in Wales.

This is a Welsh language lecture.



**Gweithdy/Workshop**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £5 am riant a plentyn/ for parent and child (+ £3 fesul plentyn ychwanegol/ per additional child)

## Dawns i bawb mewn partneriaeth â Galeri:
# Migl Di Magl Di

**Dyddiad/Date**
Dyddiau Iau (yn fisol) / Thursdays (monthly), Medi /September – Rhagfyr/ December

**Amser/Time**
10:30 – 11:30

Stori, dawnsio a chanu yn Gymraeg i blant bach 0 - 3 oed a'u rhieni/ gwarchodwyr. Cyfle i gyflwyno'r Gymraeg i'ch plentyn mewn sesiynau hwylio a chreadigol. Croeso cynnes i bawb!

Story, singing and dancing in the Welsh language for children 0-3 years and their parents/guardians. A fun and creative opportunity to introduce Welsh to your child. A welcome to all including learners and non-Welsh speakers.

**Cynhelir sesiynau'r tymor ar y dyddiadau isod / The monthly sessions take place on the following dates:**
21.09.17, 12.10.17, 23.11.17, 14.12.17

Ras yr Iaith

Sesiynau yn ddibynol ar isafswm penodol o fynychwyr. Archebwch eich lle yn gynnar. / The sessions are dependent on a minimum number of participants. Early booking recommended.

# Luke Daniels:
# Revolve & Rotate Tour

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
22.09.17

**Amser/Time**
19:30

Daw'r canwr a chyfansoddwr llwyddiannus Luke Daniels â'i sioe un dyn i Galeri gan ddefnyddio peiriant gwreiddiol Polyphon o'r 19fed ganrif fel rhan o'r perfformiad. Seiniau byw, seiniau fel peiriant cloc a seiniau sampl wedi eu gweu'n grefftus i greu moeswersi modern a cherddoriaeth offerynnol afaelgar. Mae gwaith Luke fel aelod o Fand Cara Dillon a Cherddorfa Riverdance yn tystio fod ei grefft ymhlith y goreuon. Yn sicr mi fydd hon yn noson ragorol o ganeuon a cherddoriaeth acwstig.

Award-winning singer and composer Luke Daniels brings his solo show to Galeri which uses an original 19th century Polyphon machine as part of the performance. Live, clockwork and sampled sound beautifully crafted into modern morality tales and intriguing instrumental music. Luke's work as a member of the Cara Dillon Band or Riverdance Orchestra sets his pedigree at the very highest level and promises a night of outstanding acoustic songs and music.

"a future classic" Songlines
"an enchanting delight" Acoustic Magazine

**lukedanielsmusic.com**



**Cerddoriaeth/ Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £12
Gostyngiadau/Concessions: £11
Prima: £11

Off the Kerb Productions:

# Jeremy Hardy: Live 2017

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
23.09.17


**Amser/Time**
20:00

Mae Jeremy Hardy bellach yn ei 4ydd degawd fel digrifwr stand-yp. Dyna ffordd fwy dramatig o ddweud iddo ddechrau arni 33 mlynedd yn ôl ac, os na fydd yn ennill y loteri, mae'n debyg bod ganddo o leiaf 33 mlynedd arall o'i flaen. Yn 2014, cafodd degfed cyfres Jeremy Hardy Speaks to the Nation ei darlledu ar Radio 4. Mae ar daith drwy gydol y flwyddyn ac yn gwneud sioeau byw yn ddi-baid er 1984. Ar ôl mymryn o seibiant, mae'n ei ôl ar daith ac yn dychwelyd i Galeri!

Jeremy Hardy is in his 4th decade as a stand-up this year. That's a more dramatic way of saying he started 33 years ago and, without a lottery win, probably has at least another 33 years to go. In 2014, the tenth series of Jeremy Hardy Speaks to the Nation was broadcast on Radio 4. He is also well known for his appearances on The News Quiz and I'm Sorry I Haven't a Clue. Indeed, Alan Bennett recently said he likes him "but he's only on the radio". However, Jeremy isn't only on the radio, his television credits include: Jack Dee's Election Helpdesk (BBC2), QI (BBC1), Mock The Week (BBC2), Grumpy Old Men (BBC1), Back In The Day (BBC2), Not Tonight With John Sergeant (BBC2).

He is also on the road all year round and has never stopped doing live shows since 1984 – returning to Galeri.

Canllaw oed: 14+
Age guide: 14+



**Comedi / Comedy**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £14
**Gostyngiadau/Concessions:** £5

# Tonic: Sorela

**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday
28.09.17

**Amser/Time**
14:30

Braf yw cael croesawu triawd Sorela sydd yn hannu o Aberystwyth nol i Galeri. Y chwiorydd Lisa Angharad, Gwenno Elan a Mari Gwenllian sydd yn ffurfio'r band. Wedi perfformio fel lleisiau cefndir i'w mam, Linda Griffiths am flynyddoedd, mae'r dair wedi rhoi cynnig ar berfformio eu hunain fel band, ac yn dilyn ymateb perfformiad cyntaf Sorela ym mis Awst 2016, dyma gyngerdd sy'n argoeli i fod yn un prysur arall! Dewch i fwynhau canu acapela dwy-ieithog a rhaglen amrywiol o ganeuon gwerin, traddodiadol Cymreig i ganeuon o'r 50au, y 90au yn ogystal a haneuon gwreiddiol y band.

Sisters Lisa Angharad, Gwenno Elan, Mari Gwenllian from Aberystwyth make-up Sorela. Having sung together for years as backing vocalists for their mother Linda Griffiths, the girls have decided to venture out on their own, and perform in Galeri for the second time. The acapella trio sing a bilingual, eclectic mix of traditional Welsh folk tunes, 90's pop hits, 50's classics and original works all in acapella.

**Cerddoriaeth / Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £6, Gostyngiadau/Concessions: £5, Prima: £5

Bydd paned i ddilyn.
A cup of tea to follow.



## Prydau arbennig cyn-sioe...

Mae posib archebu yn y café o 17:00 – 19:00 i fanteisio ar y fwydlen arbennig, sef: **2 gwrs: £18 neu 3 chwrs :£25**

Bydd y fwydlen i'w gweld ar ein gwefan.

**Awgrymwn yn gryf eich bod yn archebu bwrdd ymlaen llaw i sicrhau eich lle. I archebu: 01286 685 200 / cegin@galericaernarfon.com**

## Pre-show menu...

We are now offering a special pre-show menu served between 17:00–19:00. Take advantage of: **2 courses: £18 or 3 courses: £25**

The menu will be published on our website in advance.

**We strongly recommend reserving your table in advance to avoid disappointment. To book: 01286 685 200 / cegin@galericaernarfon.com**

**Bydd y fwydlen ar gael ar gyfer y dyddiadau/digwyddiadau isod/**
**The pre-show menu will be available on the following dates/events:**

| | |
|---|---|
| 01.10.17 | **Phil Scraton: The Truth** |
| 05–06.10.17 | **Hollti** |

Galeri yn cyflwyno/present

# INC 2017

**Cyhoeddir y rhaglen weithgareddau yn llawn erbyn Medi'r 1af. Dyma rai o bigion penwythnos INC 2017**

---

**The full programme will be announced on September 1st. Here are some confirmed highlights for INC 2017…**

29.09.17 – 01.10.17

Galeri Caernarfon
**galericaernarfon.com**
**#PenwythnosINC**

Galeri, Doc Victoria,
Caernarfon, LL55 1SQ
**01286 685 222**

Gwener/Friday — 29.09.17

# Y Gadair Wag

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

CYMRU'N COFIO WALES REMEMBERS 1914 - 1918

**Amser/Time**
19:30 – 20:30

Bu farw Hedd Wyn yn ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf ganrif union yn ôl, a daeth yn symbol yng Nghymru o golledion enbyd y rhyfel. Gadawyd cadair wag ar nifer o aelwydydd ledled Ewrop yn sgil y Rhyfel Mawr, a dyma sioe farddoniaeth gan Ifor ap Glyn, Bardd Cenedlaethol Cymru, sy'n edrych ar hanes Bardd y Gadair Ddu o'r newydd. Bydd y cynhyrchiad arbrofol hwn, wedi ei gyfarwyddo gan Ian Rowlands, yn cyfuno ffilm a barddoniaeth i archwilio natur colled, ffiniau a hunaniaeth.

Using film and experimental techniques, this new show by Ifor ap Glyn, National Poet of Wales, directed by Ian Rowlands, looks at Hedd Wyn's life and works alongside other WWI poets, and explores themes of loss and identity.

This is a Welsh language talk



© Rhys Llwyd

**Llenyddiaeth/Literature, Ffilm/Film**
**Lleoliad :** TH
**Tocynnau:** £8, £7 Plant/Children, Myfyrwyr/Students, PRIMA

Gwener/Friday — 29.09.17



**cerddoriaeth/music**
**Lleoliad/Location :** Bar
**Tocynnau/Tickets:**
am ddim/free admission

# Alys Williams

**Amser/Time**
20:30

Set gan Alys Williams a'r band.

A set by Alys Williams and band.

Sadwrn/Saturday — 30.09.17



**Lleoliad/Location:** Archifdy
**Tocynnau/Tickets:**
am ddim/free admission

# Drysau Agored / Open Doors: Archifdy Caernarfon Archives

**Amser/Time**
10:00 – 16:00

Dewch i gael cip tu ôl i'r llenni yn Archifdy Caernarfon fel rhan o weithgareddau cenedlaethol Drysau Agored. Yn ogystal a chael eich tywys o amgylch yr adeilad bydd cyfle i weld deunydd gwreiddiol gan gynnwys papurau newydd, lluniau a'r ddogfen hynaf sy'n dyddio yn ôl i 1177. Bydd cyfle hefyd i blant wneud gwaith celf yn seiliedig ar rhai o gasgliadau'r Archifdy.
Am fwy o fanylion: 01286 679 095 // www.cadw.gov.wales

Come behind the scenes at Caernarfon Record Office as part of the national Open Doors events. There will also be an opportunity to view original material such as newspapers photographs and the oldest document dated 1177. There will also be an opportunity for children to make artwork based on some of the collections kept at the Record Office.
For more information: 01286 679 095 // www.cadw.gov.wales



**Sgwrs/Talk, Llenyddiaeth/Literature**
**Lleoliad/Location:** S1
**Tocynnau/Tickets:** £3 y sesiwn neu £10 am y 4 sgwrs / £3 a session or £10 for the 4

# Sesiynau'r Gweisg

**Amser/Time**

Rydym wedi gwahodd rhai o weisg Cymru i INC ar gyfer sgyrsiau a lansiadau llyfrau amrywiol.

We have again invited some of Wales' publishers to INC as they discuss new work and launch new publications.

**Y sesiynau/Sessions will be:**
10:30 - 11:30 Gwasg y Bwthyn
11:45 - 12:45 Y Lolfa
14:00 –15:00 Gwasg Carreg Gwalch
15:15–16:15 Gwasg Gomer




**Gweithdy/Workshop**
**Lleoliad/Location:** C1
**Tocynnau/Tickets:** £7

# Sgriblo

**Amser/Time**
11:00 - 12:00

Sesiynau ysgrifennu misol ar gyfer plant 7–11 oed dan ofal Sian Northey.
Nod y sesiynau yw annog plant i fwynhau ysgrifennu creadigol heb bwysau cwricwlwm nag athro!
Dyddiadau'r tymor: 30.09.17, 14.10.17, 11.11.17
Capasiti cyfyngedig – archebwch eich lle yn gynnar

A series of Welsh language writing workshops for ages 7–11 led by Sian Northey.
The sessions will take place monthly on the following dates:
30.09.17, 14.10.17, 11.11.17
Limited capacity – early booking recommended



**Theatr/Theatre**
**Lleoliad/Location: TH**
**Tocynnau/Tickets:** £5
Gostyngiadau/Concessions: £4

# Hedd Wyn - Pam eu bod nhw dal yn cofio ?

**Amser/Time**
12:15

I nodi canmlwyddiant ers marwolaeth a champ Eisteddfodol y Prifardd Hedd Wyn, dyma gyfle i blant Cymru glywed ei stori drist ond ysbrydoledig. Gyda'r Rhyfel Byd Cyntaf yn gefnlen, bydd cyfle i'r plant fod yn rhan o'r stori a dysgu am ddyfalbarhad y bardd wrth iddo geisio gwireddu ei freuddwyd o ennill Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol. Dewch ar daith i ddysgu mwy am yr unigolyn arbennig yma a'i ran pwysig yn hanes Cymru.

To commemorate the hundred years since the death and Eisteddfod achievement of chief poet Hedd Wyn, we are pleased to present an unique opportunity for the children of Wales to learn about his heartbreaking but inspiring story.




**Theatr/Theatre**
**Lleoliad/Location:** Bar
**Tocynnau/Tickets:** £6

### Dirty Protest Theatre yn cyflwyno...

# Protest Fudr 10

### Noson o sgwennu newydd / A night of new writing

**Amser/Time**
19:00

Mae Dirty Protest yn 10 mlwydd oed eleni ac i ddathlu dyma chwe drama fer chwareus newydd yn defnyddio 10 fel ysbrydoliaeth. Mae criw Dirty Protest wrth ein bodd bod nôl yn bar Galeri am y trydydd tro. Dewch i ddathlu yn y bar hefo ni!

Dirty Protest Theatre are celebrating their 10th birthday this year and to celebrate we are presenting 6 new plays using 10 as inspiration. We are very happy to be back at Galeri for the third time. Come and celebrate with us!

**dirtyprotesttheatre.co.uk**



**Comedi/Comedy**
**Lleoliad:** TH
**Tocynnau:** am ddim/free admission

# Noel James

**Amser/Time**
21:15

R'ôl troedio'r byrddau stand-up yn Lloegr yn y 90au dychwelodd Noel i Gymru. Dechreuodd sgrifennu deunydd trwy gyfrwng ei famiaith. Dyma'r canlyniad! Sioe ffraeth, deinaming a gwreiddiol yw hon sy'n cynnwys jocs, miwsig, a sylwadaeth anochel ar gyflwr presennol Gwalia. Post 'Brallanfa' mae tirwedd cymdeithasol ein gwlad yn troi yn abswrd, ac felly yn ysbrydoli'n berffaith comedi swreal Noel. Eirwyn Pontshan yr unfed ganrif ar ugain.

Noel James delivers an exquisite amalgamation of witticism and wordplay. His themes are manifold - jobs, Wales, family, the Elephant Man - while his engaging high energy performance is guaranteed to leave the audience exhausted. Originally from Pontardawe he honed his engaging comic style on the London comedy. He hopes to make you laugh as well as answering a few of life's questions, questions like….where is Pontardawe? (it's actually next to Ynysmeudwy).

***'Noel James is a lovely comic' – The Scotsman.***
***'…stands out like a droll giant in a land of trite dwarves' – The Independent.***

# Phil Scraton: The Truth

**Amser/Time**
19:30

Ar y 15fed o Ebrill 1989, bu farw 96 o ddynion, merched a phlant, dilynwyr Clwb Pêl-droed Lerpwl, dan amgylchiadau dadleuol yn Stadiwm Hillsborough, Sheffield.

Er bod y dystiolaeth i'r gwrthwyneb yn llethol, ymhen dyddiau, roedd cyfryngau cynyddol elyniaethus yn dweud mai'r cefnogwyr oedd yn gyfrifol. Marwolaeth ddamweiniol oedd rheithfarn gychwynnol y cwest. Yn 2012 cyhoeddodd adroddiad cynhwysfawr Panel Annibynnol Hillsborough nad oedd bai ar y cefnogwyr ac ymysg ei ganfyddiadau manwl yr oedd beirniadaeth hallt o rôl y cyfryngau. Arweiniodd at gwest newydd, at y rheithfarnau o ladd anghyfreithlon, 25 beirniadaeth o'r awdurdodau, a chyhoeddi nad oedd y cefnogwyr ar fai o gwbl.

Gyda'r pwyslais ar rôl y cyfryngau, bydd y sgwrs yn ymchwilio i hanes Hillsborough, gwadu cyfiawnder - a'r ymgyrch i ennill cyfiawnder - gwaith y Panel a'r cwestau.



On 15 April 1989, 96 men women and children, fans of Liverpool Football Club, died in controversial circumstances at Hillsborough Stadium, Sheffield.

Despite compelling evidence to the contrary, within days an increasingly hostile media attributed responsibility to the fans. The initial inquest verdict was accidental death. In 2012 the comprehensive Hillsborough Independent Panel report exonerated the fans and its detailed findings included a major critique of the media's role. It led to new inquests, to the verdicts of unlawful killing, 25 criticisms of the authorities and full exoneration of the fans.

The talk and conversation will focus on press coverage in the aftermath of the disaster - now discredited - and subsequent media coverage in creating and sustaining a negative portrayal of Merseyside and Liverpool in particular.

**Sgwrs/Talk**

**Lleoliad:** TH

**Tocynnau:** £10 Gostyngiadau/Concessions: £9 Prima: £9

Theatr Genedlaethol Cymru:

# Hollti

gan/by Manon Wyn Williams
Yn seiliedig ar syniad gwreiddiol gan/based on an original idea by Sarah Bickerton a/and Marred Glynn Jones.



**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday – Gwener/Friday
05.10.17 – 06.10.17

**Amser/Time**
19:30

**Theatr/Theatre**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £12, Gostyngiadau/Concessions: £10, Prima: £10

"Dim y ni sy efo gafal ar y tir, ond y tir sy efo gafal arnan ni."
Mae datblygiadau ar y gweill i greu atomfa newydd ar Ynys Môn. Ond pa effaith gaiff yr Wylfa Newydd ar ei chymdogion agosaf wrth i beiriant mawr cyfalafiaeth geisio llyncu fferm sydd wedi bod yng ngofal yr un teulu ers cenedlaethau? Oes gennym ni ddewis? Sut arall fedrwn ni ofalu na fydd y golau'n diffodd? Ac onid oes gwir angen y swyddi? Dyma ddrama air-am-air newydd a beiddgar am hawl ein cymunedau i lunio'u dyfodol eu hunain. Gyda sgript wedi'i chreu o gyfweliadau gyda thrigolion lleol, daw cast o wynebau cyfarwydd â'r dadleuon yn fyw.

"It's not us who have a hold over the land, it's the land that has a hold over us."
Plans are afoot to build a new nuclear power station on Anglesey. But what effect will Wylfa Newydd have on its nearest neighbours, as the capitalist machine attempts to swallow up a farm that has remained in the same family for generations? Do we have a choice? How else can we ensure that the light stays on? And don't we desperately need the jobs? A bold new verbatim play about a community's right to shape its own future.

# Er Cof/In Memory/ In Erinnerung

**gweithdy a sgwrs gyda'r artist/workshop and talk with artist: Katherine Fiona Jones**

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
07.10.17

**Amser/Time**
14:00 – 17:00

Dewch i gymryd rhan mewn gweithdy gyda'r artist Katherine Fiona Jones i greu gwaith celf yn seiliedig ar eich hatgofion ac archwilio y thema o 'Golled'. Dewch a'ch trysorau gwerthfawr gyda chi i'w trawsnewid yn ddarnau celf creadigol a rhoi gwerth newydd iddynt. Bydd sgwrs gan yr artist i ddilyn yn son am ei phrosiectau diweddar a'i chyfnod preswyl ym Merlin.

Come and take part in our workshop with the artist Katherine Fiona Jones. Create artwork based on your personal memories and research the theme 'Bereavement'. You can also bring treasured personal possessions to be transformed into valued pieces of creative art. There will be an artist talk to follow where Katherine will discuss her recent projects and residency in Berlin.

Canllaw oed/Age guide: 16+
Cynhelir y sesiwn yn ddwy-ieithog/This is a bilingual session



**Gweithdy/Workshop, Sgwrs/Talk**
**Lleoliad/Location:** S2
**Tocynnau/Tickets:** £6

The Metropolitan Opera Live in HD

# Norma (Bellini)

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
07.10.17

**Amser/Time**
17:55

**Darllediad Byw / Live Broadcast**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £13 Gostyngiadau/Concessions: £10 PRIMA: £11
Tocyn tymor/Season ticket (10 opera)£100/£80/£70

Mae Sondra Radvanovsky fel Norma a Joyce DiDonato fel ei chydymgeisydd Adalgisa, yn arwain cast o hoelion wyth bel canto, gyda Joseph Calleja fel cariad anffyddlon Norma, Pollione, a'r ffefryn Prydeinig Matthew Rose yn dychwelyd i'r Met fel tad Norma, Oroveso. Mae campwaith Bellini yn cynnwys un o'r arias enwocaf ym myd yr opera, sef “”Casta diva””. Dan gyfarwyddyd Syr David McVicar, mae'r cynhyrchiad newydd ac atgofus hwn yn gosod y symud yn ddwfn mewn coedwig Dderwyddol, lle mae byd natur ac arferion hynafol yn teyrnasu. Mae'r offeiriades Norma wedi'i rhwygo rhwng teyrngarwch i'w phobl orthrymedig a'i chariad ar filwr Rhufeinig. Y noson cyn gwrthryfel i'r Derwyddon wrthryfela, rhaid iddi ddewis rhwng dau frad dirdynnol –ond daw i ddeall ei bod hithau wedi cael ei bradychu eisoes.
Perfformir mewn Eidaleg gyda is-deitlau Saesneg
Amcan hyd: 3” 4m

The priestess Norma is torn between loyalty to her oppressed people and love for a Roman soldier. On the eve of a Druid revolt, she must choose between two agonising betrayals–only to learn that she herself has already been betrayed. Sondra Radvanovsky as Norma and Joyce DiDonato as her rival Adalgisa lead a cast of bel canto heavyweights, with Joseph Calleja as Norma's unfaithful lover, Pollione, and British favourite Matthew Rose returning to the Met as Norma's father, Oroveso. Bellini's masterpiece boasts one of the most famous arias in all of opera, the beautiful “Casta diva.”
Performed in Italian with English subtitles
Estimated duration: 3” 4m

**Gweddill darllediadau tymor 17-18 Metropolitan Opera/The other live broadcasts for the 17-18 Metropolitan Opera Live season:**

- **Die Zauberflöte (14.10.17)**
- **The Extetminating Angel (18.11.17)**
- **Tosca (27.01.18)**
- **L'Elisir d'Amore (10.2.18)**
- **La Bohème (24.02.18)**
- **Semiramide (10.03.18)**
- **Così fan tutte (31.03.18)**
- **Luisa Miller (14.04.18)**
- **Cendrillon (28.04.18)**






**Gweithdy/Workshop**
**Lleoliad/Location:** C1
**Tocynnau/Tickets: £7**

## Sgriblo

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
14.10.17

**Amser/Time**
11:00 – 12:00

Sesiynau ysgrifennu misol ar gyfer plant 7 – 11 oed dan ofal Sian Northey. Nod y sesiynau yw annog plant i fwynhau ysgrifennu creadigol heb bwysau cwricwlwm nag athro!

A series of Welsh language writing workshops for ages 7 – 11 led by Sian Northey.

**Dyddiadau'r tymor / The sessions will take place monthly on the following dates:**
30.09.17, 14.10.17, 11.11.17

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Capasiti cyfyngedig – archebwch eich lle yn gynnar
Limited capacity – early booking recommended

# Llŷr Williams

**Pianydd Preswyl Swyddogol Galeri / Galeri's Official Resident Pianist**

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
14.10.17

**Amser/Time**
14:30

Cyngerdd olaf yn y gyfres 'Darluniau drwy Gerddoriaeth' gan ein pianydd preswyl swyddogol – Llŷr Williams. Yn un o bianyddion amlycaf ei genhedlaeth, yn perfformio yn rhyngwladol – daw a dealltwriaeth gerddorol arbennig i'w holl waith. Fel un o bianyddion gorau'r byd – mae Llŷr yn perfformio yn rhyngwladol, ac yn wybeb cyfarwydd mewn neuaddau megis The Wigmore Hall, The Gilmore International Keyboard Festival yn yr UDA ac yn Glasgow City Halls lle mae'n bianydd preswyl.

A world class musician, Llŷr Williams is widely admired for his profound musical intelligence and for the expressive and communicative nature of his interpretations. His reputation continues to grow as he performs internationally at venues including The Wigmore Hall, The Gilmore International Keyboard Festival in the USA and at Glasgow City Halls where he continues as artist in residence alongside the same role here in Galeri.

Capasiti cyfyngedig – archebwch eich lle yn gynnar
Limited capacity – early booking recommended

## *“Williams has that precious ability to shed new light on the most familiar music”*
## *THE GUARDIAN*

---

## *“One of the truly great musicians of our time”*
## *THE TIMES*

---

Llŷr was born in 1976 in Pentrebychan, Wrexham, read music at Queens College, Oxford and went on to take up a postgraduate scholarship at the Royal Academy of Music where he won every available prize and award. A former BBC New Generation Artist, he is an Honorary Fellow of The Royal Welsh College of Music and Drama and won a South Bank Sky Arts Award in 2015.

**Rhaglen y cyngerdd brynhawn yw/The programme for this special afternoon concert:**

**DEBUSSY:Suite Bergamasque**
**DEBUSSY: L’isle joyeuse**
**BRITTEN: Holiday Diary, Op. 5**

Detholiad o ganeuon gan gyfansoddwyr o Sbaen - Albeniz, Granados, Mompou (i’w cyflwyno o’r llwyfan)/Spanish pieces by Albeniz, Granados, Mompou (to be introduced from the stage).



**Cerddoriaeth/Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £20
Gostyngiadau/Concessions: £17–£15 Prima: £15



**Darllediad Byw/ Live Broadcast**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £13
Gostyngiadau/Concessions: £10
PRIMA: £11 Tocyn tymor/Season ticket (10 opera) £100/£80/£70

### The Metropolitan Opera Live in HD
## Die Zauberflöte (Mozart)

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
14.10.17

**Amser/Time**
17:55

Profwch ffantasi hudolus Mozart yn ei gogoniant! A fydd y Tywysog Tamino ddewr yn achub y Dywysoges Pamina o grafangau Sarasto ddrwg, ac a fydd Papageno, yr adarwr ffôl, yn dysgu digon o ddoethineb i'w helpu? Mae'r aria Brenhines y Nos, gyda'i nodau uchel stratosfferig, ymysg uchafbwyntiau di-ri yn stori hon am gariad a hud a lledrith, cyfrinachau dirgel, a ffantasi hynod.

Experience Mozart's irresistible fantasy in all its glory! Will brave Prince Tamino rescue Princess Pamina from the clutches of the evil Sarastro, and will Papageno the foolish bird catcher learn wisdom enough to help him? The Queen of the Night's aria, with its stratospheric high notes, is just one of the countless highlights in this tale of love and magic, mysterious secrets, and whimsical fantasy. Julie Taymor's (The Lion King) enchanting production captures both the opera's earthy comedy and its enlightened nobility.

Performir mewn Almaeneg gydag is-deitlau Saesneg. Amcan hyd: 3" 9m"
Sung in German with English subtitles. Estimated duration: 3" 9m

WNO WELSH NATIONAL OPERA CENEDLAETHOL CYMRU

**Cerddoriaeth / Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £6
Gostyngiadau/Concessions: £5
Prima: £5

## Tonic: Corws Opera Cenedlaethol Cymru | WNO Chorus

**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday
26.10.17

**Amser/Time**
14:30

Rydym yn hynod o falch bod aelodau o gorws Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru yn dychwelyd i lwyfan Tonic.
**Mae'r cyngerdd yn cydfynd gyda cyfnod y cwmni yn Venue Cymru, lle y bydda nhw'n perfformio:** Khovanshchina / Eugene Onegin / From the House of the Dead / Die Fledermaus

We are delighted to welcome members of Welsh National Opera's Chorus to return Galeri's Tonic stage.
**Their visit coincides with WNO's performances at Venue Cymru this Autumn:** Khovanshchina / Eugene Onegin / From the House of the Dead / Die Fledermaus

Bydd paned i ddilyn.
A cup of tea to follow.

Gwyn Emberton Dance


# Raft

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
27.10.17

**Amser/Time**
19:30

Pum person, pob un ag etifeddiaeth a chefndir gwahanol, pell o adre, mewn gwlad anghyfarwydd a thirwedd nad ydynt yn eu hadnabod, yn clywed iaith nad ydynt yn eu deall. Wrth iddynt sylweddoli arallrwydd eu hunain, yn erbyn cefndir gwleidyddol amheus, chwilfrydedd diawydd, a thrugaredd pur, mae'r cwestiwn hynny yn cael eu troi wyneb i waered. Sut fyddai felly, petai ni oedd y ffoadur, yr ymfudwr, yr 'ex-pat'? Mae'r cynhyrchiad yn dod a phump perfformwyr hynod a chast lleol ynghyd. Mae'r gwaith yn cyfuno coreografi rhyfeddol, trac sain ffres gan Siôn Orgon, goleuo coeth gan Aideen Malone (Bristol Old Vic/National Theatre) a chynlyn trawiadol gan Becky Davies.

